# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(58)v3

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 mins)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 mins)
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at ymgysylltiad cyflogwyr â Sgiliau (30 munud)

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Strategaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (30 munud)

### 5. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (60 munud)

### 6. Cynnig i gymeradwyo egwyddorion cyffredinol Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) (60 munud)

**NDM4959 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru).

Gosodwyd Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol

gerbron y Cynulliad ar 28 Tachwedd 2011;

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 30 Mawrth 2012.

**Dogfennau Ategol**
Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad ar y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Adroddiad ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**7. Dadl ar Strategaeth Cymru ar y newid yn yr Hinsawdd: Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf (60 munud)**

**NDM4960 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

(a) Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd: Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf; a

(b) y camau sy'n cael eu cymryd i wireddu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Gallwch weld Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd: Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

Llywodraeth Cymru | Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd : Adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder:

a) bod y duedd mewn allyriadau Nwyon Ty Gwydr 1990/2009 yn yr adroddiad yn awgrymu na chyrhaeddir y targed o sicrhau gostyngiad o 40 y cant; a

b) mai ar hyn o bryd, dim ond o ganlyniad i'r dirywiad economaidd y mae'n bosibl cyflawni'r targed o 3 y cant o ostyngiad blynyddol.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd creu swyddi gwyrdd carbon isel, cynaliadwy yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i ddiweddaru Ôl-Troed Ecolegol Cymru ac i fabwysiadu mesur ar ddefnydd o allyriadau er mwyn mesur yn llawn allyriadau Nwyon Ty Gwydr o nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu mewnforio o wledydd eraill yn y byd.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i ymestyn y cynllun Arbed fel yr awgrymwyd gan y Comisiwn yn yr adroddiad.

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru yn cymryd camau digonol i gyrraedd ei tharged allyriadau 3 y cant.

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn cynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref a fydd yn cael effaith ar leihau allyriadau nwyon ty gwydr.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 25 Ebrill 2012